VOSA

Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr

Cyngor i bobl sy'n dod â cherbydau ag injan ddisel am brawf MOT

Fel rhan o'r prawf MOT, byddwch yn cael taflen wybodaeth am y Prawf Mwg Disel. Hefyd, efallai y gofynnir cwestiynau i chi am hanes cynnal a chadw'r cerbyd, er enghraifft, ydych chi wedi newid y belt amseru yn ddiweddar?

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi o'ch amser i ddarllen y daflen, ac os nad ydych yn deall unrhyw ran o'i chynnwys, gofynnwch am fwy o wybodaeth.

Pam fod yr wybodaeth hon yn bwysig?

Pwrpas y gwiriad hwn yw sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad oes unrhyw ddifrod yn cael ei achosi i'r injan wrth gynnal prawf allyriadau disel arni.

Rhaid i'r sawl sy'n cynnal y prawf fodloni ei hun, cyn belled ag y bo modd, bod yr injan mewn cyflwr addas i'w phrofi. .Bydd unrhyw wybodaeth y gallwch chi ei rhoi i'r profwr yn ddefnyddiol.

Os ydych yn meddwl nad yw eich cerbyd mewn cyflwr addas i gael y prawf hwn, dywedwch wrth y profwr.

MAE CERBYDAU MYGLYD YN NIWEIDIO'R AMGYLCHEDD